# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2017

Amser: 14.50 - 16.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4356

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Frances Duffy, Cyfarwyddwr Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Dave Thomas<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Gohebiaeth gyda Llywodraeth Cymru

1.1 Bu'r Aelodau'n ystyried ac yn trafod yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.2 Cytunodd yr Aelodau y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol gyda'u pryderon ac yn cynghori y gallent fod am gymryd tystiolaeth lafar ganddi.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vikki Howells AC. Ni chafwyd dirprwy ar ei rhan.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 4 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

4.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr y GIG a Frances Duffy, Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol ac Arloesedd, Llywodraeth Cymru ar weithredu'r argymhellion a gododd o adroddiadau'r Pwyllgor blaenorol a'r Pwyllgor hwn ar arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai.

4.2 Cytunodd Dr Goodall i anfon rhagor o wybodaeth am y llinellau amser ar gyfer cyflwyno'r system genedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol (WCCIS) a system arlwyo Cymru Gyfan.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd i ailedrych arni pan gyhoeddir adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru, y bwriedir gwneud hynny ym mis Ionawr 2018.